

# Cofnodion cryno – Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

Fideogynhadledd drwy Zoom

Dyddiad: Dydd Llun, 1 Mawrth 2021

Amser: 09.30 – 10.59

Gellir gwyllo'r cyfarfod ar [Senedd TV](#) yn:

<http://senedd.tv/cy/11066>

## Yn bresennol

| Categori            | Enwau   |
|---------------------|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Mick Antoniw AS (Cadeirydd)<br>Carwyn Jones AS<br>Dai Lloyd AS<br>David Melding AS  |
| Tystion:            | Jeremy Miles AS, Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd<br>Dylan Hughes, Llywodraeth Cymru<br>Dr Robert Parry, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor:   | P Gareth Williams (Clerc)<br>Gareth Howells (Cynghorydd Cyfreithiol)  |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Cadarnhaodd y Cadeirydd ei fod – yn unol â Rheol Sefydlog 34.19 – wedi penderfynu bod y cyhoedd yn cael eu heithrio o gyfarfod y Pwyllgor, er mwyn amddiffyn iechyd y cyhoedd.



Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau na dirprwyon.

## **2 Gwaith craffu cyffredinol ar Ddiwedd y Pumed Senedd – sesiwn dystiolaeth gyda'r Cwnsler Cyffredinol.**

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Cwnsler Cyffredinol.

## **3 Offerynnau sy'n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3**

### **3.1 SL(5)750 – Gorchymyn Senedd Cymru (Breinlythyrau a Phroclamasiynau) 2021**

Trafododd y Pwyllgor y Gorchymyn ac ymateb Llywodraeth Cymru, a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### **3.2 SL(5)751 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2021**

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### **3.3 SL(5)753 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol, Atebolrwydd Gweithredwyr a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) 2021**

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### **3.4 SL(5)744 – Rheoliadau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) (Diwygiadau Canlyniadol) 2021**

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

**3.5 SL(5)745 – Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Awdurdodau sy'n ddarostyngedig i ddyletswydd ynghylch Anghydraddoldebau Economaidd–gymdeithasol) (Cymru) 2021**

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ac ymateb Llywodraeth Cymru, a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

**3.6 SL(5)746 – Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Targedau Allyriadau Interim) (Cymru) (Diwygio) 2021**

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ac ymateb Llywodraeth Cymru, a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd.

**3.7 SL(5)747 – Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Cyllidebau Carbon) (Cymru) (Diwygio) 2021**

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ac ymateb Llywodraeth Cymru, a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd.

**3.8 SL(5)748 – Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Terfyn Credyd Cyfrif Allyriadau Net Cymru) (Cymru) 2021.**

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ac ymateb Llywodraeth Cymru, a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd.

**3.9 SL(5)749 – Rheoliadau Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (Diwygio Targed Allyriadau 2050) 2021**

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ac ymateb Llywodraeth Cymru, a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd.

**3.10 SL(5)754 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2021**

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

## **4 Papurau i'w nodi**

### **4.1 Llythyr oddi wrth Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig: Rheoliadau Rhestrau Gwledydd Cymeradwy (Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid) (Diwygio) 2021**

Nododd y Pwyllgor y llythyr oddi wrth Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig.

### **4.2 Llythyr oddi wrth y Gweinidog Addysg: Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru)**

Nododd y Pwyllgor y llythyr oddi wrth y Gweinidog Addysg

### **4.3 Llythyr oddi wrth Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol. Cyfarfod Gweinidogol Sectorau Gwaith Tai a Chynllunio Gofodol ar y Cyd y Cyngor Prydeinig–Gwyddelig**

Nododd y Pwyllgor y llythyr oddi wrth y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, a'i fod wedi'i anfon yn unol â'r Cytundeb Cysylltiadau Rhyng-sefydliadol.

### **4.4 Llythyr oddi wrth y Prif Weinidog: Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru (Diwygio) 2021**

Nododd y Pwyllgor y llythyr oddi wrth y Prif Weinidog.

### **4.5 Llythyr oddi wrth Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol. Adolygiad cyntaf o baratoadau ar gyfer etholiad y Senedd 2021 yn unol â Bil Etholiadau Cymru (Coronafeirws)**

Nododd y Pwyllgor y llythyr oddi wrth y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, a'i fod wedi'i anfon yn unol â'r Cytundeb Cysylltiadau Rhyng-sefydliadol.

## **5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod**

Cytunodd y Pwyllgor ar y cynnig.

## **6 Gwaith craffu cyffredinol ar Ddiwedd y Pumed Senedd – trafod y dystiolaeth**

Ystyriodd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd yn ystod y sesiwn gyda'r Cwnsler Cyffredinol a thrafododd faterion allweddol i'w cynnwys yn ei adroddiad etifeddiaeth.